WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio
d/o Cyngor Gwynedd
Pencadlys
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | JPPC1213 |
| **Dyddiad** | 17 Medi 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

**Y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio: Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013**

Annwyl Gynghorwyr

Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn:

- ar a yw'r wybodaeth yn Natganiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 yn unol â gofynion Archwilydd Cyffredinol Cymru; ac
- nad yw unrhyw faterion a ddaeth i sylw'r Archwilydd yn destun pryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio wedi'u bodloni.

Daeth y Datganiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 i law ar 28 Mehefin 2013, cyn y dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin 2013, ac rydym wedi cwblhau ein gwaith archwilio fwy neu lai erbyn hyn. Mae un mater yn codi y credwn y dylech chi ei ystyried cyn cymeradwyo Datganiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Polisi Cynllunio yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau).

**Adroddiad archwilio arfaethedig**

Ein bwriad yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiad blynyddol. Caiff yr adroddiad archwilio ei addasu i gynnwys 'Mater Arall' sy'n tynnu sylw'r darllenydd at y ffaith na wnaeth y Cyd-bwyllgor baratoi datganiad blynyddol yn 2012-13 yn unol â'r gofynion.

**Materion eraill nad ydynt yn effeithio ar ein barn**

Nid oes unrhyw faterion eraill yn effeithio ar ein barn yr hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

**Camddatganiadau yn y Datganiadau Cyfrifyddu**

Nid oes unrhyw gamddatganiadau yn Adran 1: Datganiadau cyfrifyddu nad ydynt wedi'u cywiro.

**Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol**

Dylai'r Swyddog Ariannol Cyfrifol ardystio “Adran 3: Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol” yn unol â Rheoliad 8 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (Rheoliadau 8B (1), 8B (2) a 8B (3)).

Yna, dylai'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol a dylai Cadeirydd y cyfarfod sy'n cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol lofnodi “Adran 3: Cymeradwyaeth gan y Pwyllgor”. Ar ôl i'r Datganiad Blynyddol gael ei gymeradwyo, dylid ei anfon i'r cyfeiriad uchod. Ar ôl i ni dderbyn y Datganiad Blynyddol, byddwn yn cwblhau “Adran 3: Adroddiad Archwilwyr Allanol” ac yn anfon hysbysiad o gasgliad yr archwiliad atoch.

Yn gywir

**Derwyn Owen**

**Arweinydd Ymgysylltu**

**Ar ran yr Archwilydd Penodedig**